CONSERVATION AREA

**Former Vivian
Locomotive Shed**
GRADE II LISTED BUILDING

1940



The Hafod-Morfa works at some point in the inter-war period

MILESTONES

- 1820s-1850s** Temporary slump at the start of every decade.
- 1840s** Welshmen took smelting knowhow to the USA.
- 1850s** Smelting works opened in Australia.
- 1860s** Chile becomes leading ore exporter.
- 1870s** Welsh expertise taken to New South Wales.
- 1881-1882** French inventors make copper refining by Bessemer Converter possible – quickly taken full advantage of in United States. Vivians make use of process from 1885.
- 1880s** USA becomes leading ore exporter.
- 1880-1890** Peak of copper ore imports to Swansea, c. 70,000 tons p.a.
- 1900** Peak of semi refined copper imports to Swansea – c. 57,000 tons p.a.
- 1921** Refining of copper ended in Hafod and Morfa.
- 1924** Hafod and Morfa combined to become British Copper Manufacturers – works reorganised. Also owned White Rock lead works and Morryston spelter.
- 1926** B.C.M. taken over by I.C.I.
- 1929** Manufactured copper sheets, sheathing plates, rods, rivets, pans, yellow metal, spelter, lead piping and sheets, sulphuric acid, zinc chloride and superphosphates.
- Early 1930s** Made only copper, brass and alloy sheets and plates, forged copper bottoms, pans and locomotive fireboxes, lead pipes and sheet and zinc chloride.
- 1939-1945** 2,600 employed on Landore site covering about 130 acres.
- 1945** Disasterous collapse of Indian market.
- 1957** Landore site (Hafod and Morfa) taken over by Yorkshire Imperial Metals, a joint firm of I.C.I. and Yorkshire Metals.
- 1959** Only 359 employees.
- 1967** Closure of copper refinery, locomotive plate forge and zinc chloride plant – site reduced to 27 acres, with the rest sold to the City Council for tip clearance, an industrial estate and playing fields. Most manufacturing was done on the Hafod site, with only alloy casting and machining at Morfa.
- 1971** Only 170 employees, making only hot rolled plates and forgings in copper and copper alloys, 40% were exported. All high quality products to specifications to 0.01 inches.
- August 1980** Final closure of what had become Yorkshire Imperial Metals ended copper working at Swansea.

CERRIG MILLTIR

- 1820au-1850au** Gostyngiadau dros dro ar ddechrau pob degawd
- 1840au** Cymry yn mynd â gwybodaeth yngl ŷn â thoddi i UDA
- 1850au** Gweithfeydd toddi yn agor yn Awstralia
- 1860au** Chile yn troi'n brif gynhyrchydd mwynau
- 1870au** Arbenigedd y Cymry yn mynd i New South Wales
- 1881-1882** Dyfeiswyr o Ffrainc yn gwneud puro copr trwy Drawsnewidydd Bessemer yn bosib – yr Unol Daleithiau yn manteisio ar hyn yn gyflym. Vivians yn defnyddio'r broses o 1855.
- 1880au** U.D.A. yn dod yn brif gynhyrchydd mwynau
- 1880-1890** Uchafbwynt mewnforion mwyn copr i Abertawe, tua 70,000 tonnall y flwyddyn
- 1900** Uchafbwynt mewnforion copr wedi'u puro'n rhannol i Abertawe – tua 57,000 tonnall y flwyddyn
- 1921** Puro copr yn dod i ben yn Hafod a Morfa.
- 1924** Hafod a Morfa yn cyfuno i ffurfio Cynhyrchwyr Copr Prydain – ad-drefnwyd y gweithfeydd. Hefyd yn berchen ar weithfeydd plwm y Garreg Wen a sinc Treforys.
- 1926** I.C.I. yn cymryd drosodd B.C.M.
- 1929** Dalennau copr a gynhyrchwyd, platiau gorchuddio, rodiau, gwth-hoelion, paniau, metel melyn, sinc, pibellau a dalennau plwm, asid sylffwrig, clorid sinc ac uwchffosfadau.
- 1930au cynnar** Gwneud dalennau a phlatiau copr, pres ac aloi yn unig, gwaelodion copr gyredig, paniau a blychau tân locomotif, pibellau plwm a chlorid dalen a sinc
- 1939-1945** 2,600 yn cael eu cyflogi ar safle Glandŵr gan gwmpasu 130 erw
- 1945** Cwymp trychinebus marchnad India
- 1957** Safle Glandŵr (Hafod a Morfa) yn cael ei gymryd drosodd gan Yorkshire Imperial Metals, cwmni ar y cyd I.C.I. a Yorkshire Metals.
- 1959** Dim ond 359 o weithwyr.
- 1967** Cau'r burfa gopr, gefail plât locomotif a ffatri sinc clorid – lleihau'r safle i 27 erw a'r gweddill yn cael ei werthu i Gyngor y Ddinas ar gyfer clirio'r tomenni, ystad ddiwydiannol a meysydd chwarae. Gwnaed y rhan fwyaf o'r gwaith cynhyrchu ar safle yr Hafod, gyda dim ond castio aloi a pheiriannau yn y Morfa.
- 1971** Dim ond 170 o weithwyr, yn gwneud platiau poeth wedi'u rholio a gofaniadau mewn copr ac aloion copr. Cafodd 40% eu hallforio. Cynnyrch o ansawdd uchel i fanylebau 0.01 modfedd.
- Awst 1980** Gwaith copr yn dod i ben yn Abertawe gyda chau Yorkshire Imperial Metals.

1963



Aberdyberthi Street dominated by the vast Hafod Copperworks waste tip

THE HAFOD COPPERWORKS 1810-1924

The Hafod Copperworks was located between the Swansea Canal on one side and a bend in the River Tawe on the other. It was laid out by John Vivian with expansion in mind from the very outset. In its day it was one of the largest and most up to date industrial enterprises in Europe and by the 1840s Vivian & Sons were the largest exporters of finished copper in the UK.

Over the course of the 19th century the Vivians' also built an entire settlement for their employees called "Trevivian" or "Vivianstown" and which we now call the "Hafod". A works school built in 1846; a church and numerous terraces of housing can all still be seen. The survival of "Trevivian" is remarkable and constitutes a complete copperworkers' township of the Victorian period.

By 1823 the Swansea Valley's various copperworks (together with coal and shipping interests) supported 10,000 out of an entire population of approximately 15,000. Swansea was indeed "Copperopolis". By 1886 Vivian & Sons employed three thousand people, one thousand of them at the Hafod. The Hafod Works produced copper in bars, ingots, sheets, tube, rod, bolts, circles, sulphate of copper, yellow metal and condenser plates. It also produced naval brass, ferro bronze, lead ingots, spelter, silver, gold, sulphuric acid, zinc chloride and superphosphate fertilisers. To the south of the Hafod Works and on the same side of the river, existed a string of industrial enterprises all owned by the Vivian family which included the Hafod Phosphate Works, Hafod Foundry, Hafod Forge and the Hafod Isaf (Isha) Nickel & Cobalt Works. An excellent coloured Ordnance Survey map dated 1879 shows the Hafod Works and immediate surroundings in some detail and is available from the Archive Service at County Hall. Other works belonging to the Vivians' could be

found at Landore, Morriston and White Rock. The latter was founded in 1737 and smelted copper under various owners until 1871 when the Vivian's took it over to smelt silver and lead until 1924.

The Morfa Copperworks was started in 1834 immediately next door to the Hafod Works with only a high stone wall between the two works to divide them. Legend has it that workers at Morfa were instructed not to talk to the Hafod workers for fear of giving away trade secrets. Prior to this in 1828 work had begun on building the steam-powered rolling mill that would eventually become the Swansea Museum Collections Centre we see today. Morfa was operated by Williams Foster & Co. from 1835-80. Between 1880-93 it was operated by Williams Foster & Co. and between 1893-1924 by Williams Foster & Co. Ltd and Pascoe Grenfell & Co. Ltd. After 1894 family interest in the Hafod Copperworks dwindled and in 1924 the firm was absorbed into the adjacent Morfa complex. The latter was the largest non-ferrous metal smelter in the world by the mid-19th century. British Copper Manufacturers owned the combined works until 1928, when they were taken over by ICI, although the refining of copper had ended around 1924. The site was taken over by Yorkshire Imperial Metals, an amalgamation of I.C.I and Yorkshire Metals in 1957, the two works worked as one until closure in August 1980.

The value of preserving historic features is equally important in social terms. Highlighting the historic environment of an area can encourage an appreciation and respect for the modern environment.

The differences and similarities of waterfront activities over time can be highlighted and continuities and changes of use understood.

In maintaining a connection with the past, a deep-rooted sense of place can be engendered, which will enhance the experiences of those working in, living in and visiting those waterfront locations.

Mae gwerth cadw nodweddion hanesyddol yr un mor bwysig o safbwynt cymdeithasol. Gall amlygu amgylchedd hanesyddol ardal hybu gwerthfawrogi a pharchu'r amgylchedd cyfoes. Mae modd amlygu nodweddion tebyg ac annhebyg gweithgareddau ar y glannau dros amser a deall newidiadau a'r nodweddion sy'n parhau. Wrth gadw cysylltiad â'r gorffennol, mae modd meithrin ymdeimlad dwfn o le a fydd yn gwella profiadau pawb sy'n gweithio, yn byw ac yn ymweld â'r lleoliadau hynny ar y glannau.

GWEITHFEYDD COPR YR HAFOD 1810 - 1924

Safai Gweithfeydd Copr yr Hafod rhwng Camlas Abertawe ar y naill law a thro yn Afon Tawe ar y llaw arall. Fe'i cynlluniwyd gan John Vivian gan adael lle i ehangu o'r cychwyn cyntaf. Yn ei ddydd roedd yn un o'r mentrau diwydiannol mwyaf ei faint a mwyaf cyfoes yn Ewrop ac erbyn yr 1840au, Vivian a'i Feibion oedd allforwyr copr gorffenedig mwyaf y DU.

Yn ystod y 19eg ganrif, adeiladodd y teulu Vivian hefyd anheddiad cyfan ar gyfer eu gweithwyr o'r enw "Trevivian" neu "Vivianstown", yr ydym bellach yn ei alw "Yr Hafod". Adeiladwyd ysgol i'r gwaith ym 1846; gellir gweld eglwys a therasau niferus o dai o hyd. Mae goroesiad "Trevivian" yn rhyfeddol am ei bod yn dref gweithwyr copr gyfan o'r cyfnod Fictoraidd.

Erbyn 1823, roedd gweithfeydd copr amrywiol Cwm Tawe (ynghyd â busnesau glo a llongau) yn cynnal 10,000 o'r boblogaeth gyfan o ryw 15,000. Roedd Abertawe yn wir yn "Copperopolis". Erbyn 1886 roedd Vivian a'i Feibion yn cyflogi tair mil o bobl, mil ohonynt yn yr Hafod. Cynhyrchai Gwaith yr Hafod gopr mewn bariau, ingotiau, dalenni, tiwbiau, rodiau, bolltiau, cylchoedd, sylffad copr, metel melyn a phlatiau cyddwyso. Cynhyrchai hefyd bres i'r llynges, fferobres, ingotiau plwm, sbelter, arian, aur, asid sylffwrig, clorid sinc a gwrtaith uwchffosfad. I'r de i Waith yr Hafod ac ar yr un ochr i'r afon roedd cyfres o fentrau diwydiannol a oedd i gyd dan berchnogaeth y teulu Vivian, gan gynnwys Gwaith Ffosfad yr Hafod, Ffowndri'r Hafod, Gefail yr Hafod a Gwaith Nicel a Chobalt yr Hafod Isaf (Isha). Mae map Arolwg Ordnans lliw ardderchog o 1879 yn dangos Gweithfeydd yr Hafod a'r cylch mewn cryn fanylder ac mae ar gael gan y Gwasanaeth Archifau yn Neuadd y Sir. Gellid dod o hyd i weithfeydd eraill dan berchnogaeth y

teulu Vivian yng Nglandŵr, Treforys a'r Graig Wen. Sefydlwyd yr olaf o'r rhain ym 1737 ac fe fu'n smeltio copr dan amrywiaeth o berchnogion tan 1871 pan gafodd ei gymryd drosodd gan y teulu Vivian i smeltio arian a phlwm tan 1924.

Sefydlwyd Gwaith Copr y Morfa ym 1834 yn union drws nesaf i Weithfeydd yr Hafod, gyda wal gerrig uchel yn unig rhwng y ddau waith i'w gwahanu. Dywedir bod gweithwyr y Morfa wedi cael gorchymyn i beidio â siarad â gweithwyr yr Hafod rhag ofn iddynt ddatgelu cyfrinachau masnachol. Cyn hyn ym 1828 roedd gwaith wedi dechrau ar adeiladu'r felin rollo ager a fyddai, yn y pen draw, yn dod yn Ganolfan Casgliadau Amgueddfa Abertawe a welwn heddiw. Gweithredwyd Morfa gan Williams Foster & Co o 1835 i 1880. Rhwng 1880 a 1893 fe'i gweithredwyd gan Williams Foster & Co a rhwng 1893 a 1924 gan Williams Foster & Co. Cyf a Pascoe Grenfell & Co. Cyf. Ar ôl 1894 lleihaodd diddordeb y teulu yng Ngweithfeydd Copr yr Hafod ac ym 1924 daeth y cwmni'n rhan o waith cyfagos y Morfa. Hwnnw oedd smeltiwr metel anfferrus mwyaf y byd erbyn canol y 19eg ganrif. British Copper Manufacturers oedd perchennog y gwaith cyfunedig tan 1928 pan gymerodd ICI drosodd, ond roedd y gwaith puro copr wedi dod i ben tua 1924. Cymerwyd y safle drosodd gan Yorkshire Imperial Metals, cyfuniad o I.C.I. a Yorkshire Metals ym 1957, a gweithiodd y ddau waith fel un tan iddynt gau ym mis Awst 1980.

2007



The Swansea Museum Collection Centre Building

◀ THE MUSEUM STORES

This impressive building can be found at the northern end of the Hafod and Morfa Copperworks site. This large structure was a former rolling mill for the Morfa Copperworks and was built around 1828 by Williams Foster and Co. of Cornwall. When in industrial use it was a rolling plant for converting copper ingots into bars and plate. Smelting is thought to have started in 1835. This is arguably the most important building on the whole site and is constructed mostly from rubble sandstone with brick infilling. The roof is a modern addition. The east elevation has stone walls at either end which are the remains of the original building of 1828.

THE CANTEEN BUILDING ▶

This structure was built in the late 19th century and is sited immediately in front of the Laboratory Building. Despite its name it was originally the Power House to the Morfa Copperworks before becoming a canteen. Made from stone it has the remains of an imposing clock tower that was louvered with clock faces and a weathervane. It had an attractive interior comprised of cast-iron structural members with reeded cast-iron columns and capitals. This reeding is a convex moulding designed to make the column appear as if it is comprised of multiple branch-like elements. In its last incarnation as a canteen it was essentially one large open-plan space for eating in. It once possessed a wide slate roof but this was lost to fire a few years ago. This is a Grade II Listed Building.

◀ STORFEYDD YR AMGUEDDFA

Gallwch ddod o hyd i'r adeilad trawiadol hwn ym mhen gogleddol safle Gweithfeydd Copr yr Hafod a'r Morfa. Roedd yr adeiledd mawr hwn yn felin rolïo gynt i Weithfeydd Copr y Morfa. Sefydlwyd y Gweithfeydd Copr ym 1828 gan Williams Foster & Co. o Gernyw. Yn ystod ei fywyd diwydiannol, roedd yn waith rholïo i droi ingotiau copr yn farrau a phlatiau. Gellid dadlau mai hwn yw'r adeilad pwysicaf ar y safle cyfan, ac fe'i adeiladwyd yn bennaf o dywodfaen rwbel a mewnlennwadau bric. Mae'r to yn ychwanegiad modern. Mae gan y gweddlun dwyreiniol walïau o waith maen ym mhob pen sy'n weddillion yr adeilad gwreiddiol o 1828.

ADEILAD Y FFREUTUR ▶

Codwyd yr adeiledd hwn yn rhan ddiweddar y 19eg ganrif ac fe'i lleolir yn union o flaen Adeilad y Labordy. Er gwaethaf ei enw, dyna oedd Pwerdy Gweithfeydd Copr y Morfa'n wreiddiol cyn iddo droi'n ffreutur. Wedi'i adeiladu o waith maen, mae adfeilion tŵr cloc amlwg arno, oedd â lwfrau, wynebau cloc a cheiliog gwynt. Roedd ganddo rannau mewnlol deniadol a oedd yn cynnwys darnau adeileddol haearn bwrw gyda cholofnau a chapanau gwrymiog. Mae'r cyrswaith hwn yn fowldin amgrwm sydd â'r nod o beri i'r golofn edrych fel ei bod yn cynnwys nifer o elfennau canghennog. Yn ei ffurf ddiwethaf, sef ffreutur, roedd yn un man bwyta cynllun agored mawr, i bob pwrpas. Ar un adeg roedd ganddo do llechi eang, ond collwyd hwn mewn tân rai blynyddoedd yn ôl. Mae hwn yn Adeilad Rhestredig Gradd II.

2007



The former Morfa Copperworks Canteen / Power House building

2007



The Laboratory Building

PIER TO FORMER WASTE TIP ►

This feature can be found on the east side of the former Swansea Canal to the copper slag abutment. It is a tall column or pier made from rubble sandstone with copper slag blocks to the quoins (corners). The purpose of this pier was to help support a works tram road high above the Swansea Canal. This tram road conveyed slag away from the copperworks to a tip to the west. A structural feature, it was built into a boundary wall of the Swansea Canal at some point in the middle of the 19th century. The boundary wall it is part of stretches for sixty metres and is also constructed of rubble stone (that's stone used in a wholly or partly rough state) and copper slag. It too is a Grade II Listed feature. This wall extended as far north as the boundary between the Hafod and Morfa works at the Morfa Laboratory Building. Between this point and the pier can be seen a wide arch picked out in yellow brick, this was the entrance to one of the canal docks.

◀ THE LABORATORY BUILDING

This Grade II Listed Building was originally part of the Morfa Copperworks and access to it was gained via a bridge over the Swansea Canal. It was built in the middle of the 19th century and was probably used as an 'Assay Office' in which to test the quality of copper ore coming into the works. Of the surviving buildings on the site this is architecturally the most ornate with many classical features.

PIER YR HEN DOMEN SBWRIEL ►

Gallwch ddod o hyd i'r nodwedd hon ar ochr ddwyreiniol hen Gamlas Abertawe gerllaw'r ategwaith sorod copr. Mae'n golofn neu bier tal a luniwyd o dywodfaen rwbel gyda blociau sorod copr ar y congilfeini (corneli). Diben y pier hwn oedd helpu i gynnal ffordd dramiau'r gwaith yn uchel uwchben Camlas Abertawe. Cludodd y ffordd dramiau hon slag i ffwrdd o'r gweithfeydd copr i domen i'r gorllewin. Fel nodwedd adeileddol, fe'i hymgorfforwyd yn wal derfyn camlas Abertawe rywbryd yng nghanol y 19eg ganrif. Mae'r wal derfyn y mae'n rhan ohoni'n ymestyn am chwe deg metr ac mae wedi'i hadeiladu o rwbel cerrig (sef cerrig a ddefnyddir mewn cyflwr cyfan gwbl neu rannol arw) a sorod copr. Mae hon hefyd yn nodwedd restredig Gradd II. Estynnai'r wal hon mor bell i'r gogledd â'r ffin rhwng gweithfeydd yr Hafod a gweithfeydd y Morfa wrth adeilad Labordy'r Morfa. Rhwng y pwynt hwn a'r pier, gwelir bwa llydan mewn brics melyn, sy'n fynedfa i un o ddociau'r gamlas.

◀ ADEILAD Y LABORDY

Yn wreiddiol roedd yr Adeilad Rhestredig Gradd II hwn yn rhan o Weithfeydd Copr y Morfa, a chaed mynediad iddo ar hyd pont dros Gamlas Abertawe. Fe'i adeiladwyd yng nghanol y 19eg ganrif ac mae'n debygol iddo gael ei ddefnyddio fel 'Swyddfa Brofi' i brofi ansawdd y mwyn copr a oedd yn dod i mewn i'r gwaith. O'r adeiladau sy'n goroesi ar y safle, dyma'r un mwyaf addurnedig o safbwynt pensaernïol am ei fod yn cynnwys llawer o nodweddion clasurol.



The Pier to the former waste tip tramroad is built into a boundary wall

2007



The Copper Slag Abutment

◀ COPPER SLAG ABUTMENT

This can be found near the centre of the former Hafod Copperworks site on the west bank of the former Swansea Canal. It is a high wall made of copper slag and once supported a works tram road for carrying slag waste over the Swansea Canal. It also functioned as a retaining wall holding back a slag tip to the west. This wall dates from the mid-19th century and was constructed from cast copper slag blocks made as a by-product of the copper-making process. The wall was made a Grade II Listed structure precisely because it was...“probably the most impressive surviving example of copper slag construction in Wales”.

THE LIME KILN ▶

Standing to one side of the road exiting the Park & Ride facility and on what was the west bank of the Swansea Canal is the last of 54 limekilns that once stood alongside that canal. It dates from the mid-19th century and is a tapering stone rubble structure 5.8 metres square. It used to have a charging ramp made from copper slag to its west elevation and part of its north elevation. This enabled lime to be pushed up it in wagons and emptied in from the top of the kiln. Unlike many other kilns at this time the lime produced from this kiln was used for building and not agricultural purposes. The limestone used in this kiln came to the Hafod Copperworks via the Oystermouth Railway and Swansea Canal from Mumbles. The anthracite also used came by canal from the upper Swansea Valley. It is a Grade II listed Building.

◀ ATEGWAITH SOROD COPR

Gallwch ddod o hyd i hwn ger canol safle hen Weithfeydd Copr yr Hafod ar lan orllewinol hen Gamlas Abertawe. Mae'n wal uchel a adeiladwyd o sorod copr a oedd ar un adeg yn cynnal ffordd tramiau'r gwaith i gludo gwastraff sorod dros Gamlas Abertawe. Roedd hefyd yn wal gynnal i ddal tomen sorod yn ôl i'r gorllewin . Mae'r wal hon yn dyddio o ganol y 19eg ganrif ac fe'i hadeiladwyd o flociau sorod copr bwrw a oedd yn is-gynnyrch y broses cynhyrchu copr. Gwnaed y wal yn adeiledd rhestredig Gradd II oherwydd... "ei fod yn debygol mai dyma'r enghraifft fwyaf trawiadol o adeiladwaith sorod copr sy'n goroesi yng Nghymru".

YR ODYN GALCH ▶

Yn sefyll ar un ochr o'r ffordd sy'n dod allan o'r cyfleuster Parcio a Theithio ac ar yr hyn a oedd yn lan orllewinol Camlas Abertawe mae'r odyn galch olaf o'r 54 a safai wrth ochr y gamlas honno ar un adeg. Mae'n dyddio o ganol y 19eg ganrif ac mae'n adeiledd cerrig rwbel pigfain gydag arwynebedd o 5.8 metr sgwâr. Roedd ganddi ar un adeg ramp llenwi a adeiladwyd o sorod copr ar ei hochr orllewinol a rhan o'i hochr ogleddol. Roedd hyn yn golygu bod modd i galch gael ei wthio i fyny ar hyd-ddi mewn wagenni a'i arllwys i mewn o ben yr odyn. Roedd yr odyn hon yn wahanol i lawer o odynnau eraill y cyfnod oherwydd i'r calch a gynhyrchid ynddi gael ei ddefnyddio at ddibenion adeiladu, nid rhai amaethyddol. Deuai'r garreg galch a ddefnyddid yn yr odyn hon i Weithfeydd Copr yr Hafod o'r Mwmbwls ar Reilffordd Ystumllwynarth a Chamlas Abertawe. Deuai'r glo carreg a ddefnyddid ar y Gamlas hefyd o Gwm Tawe uchaf. Mae'n adeilad rhestredig Gradd II.



The Hafod Limekiln

2007



Line of former Swansea Canal to the right of this wall

CHIMNEY TO THE WEST OF THE VIVIAN ENGINE HOUSE ►

This tall, tapering chimney stack is constructed of red brick and rests on an octagonal plinth with a corbelled head and a circular shaft. Its shaft has numerous iron bands and a corbelled ring at its neck. A corbel is a projecting block or brick supporting something above. It is a Grade II listed structure and was listed because of its group value along with the other buildings and structures of the former Hafod and Morfa Copperworks. It can be found on the slope to the west of the Vivian Engine House and east of the former Swansea Canal.

◀ BOUNDARY WALL OF THE HAFOD COPPERWORKS

This high wall dates from around the time the copperworks was established in 1810 and is 80 metres long and made of copper slag, sandstone and brick. It is on what used to be the east bank of the Swansea Canal which was built in 1794-8. The Canal ran right through the works and was the principal transport artery for carrying coal to the furnaces. This wall has been successively raised at periods throughout the 19th century. Two blocked archways can still be seen that supported the wall where the canal dock entrances passed through.

SIMNAI I'R GORLLEWIN O

BEIRIANDY VIVIAN ►

Mae'r simnai dal hon sy'n culhau tua'r gwddf wedi'i gwneud o friciau coch ac mae'n gorffwys ar blinth wythochrog. Mae ganddi ben corbelaidd a siafft gron. Mae'r siafft yn cynnwys sawl band haearn a chylch corbelaidd am ei gwddf. Blociau neu friciau bargodol sy'n cynnal rhywbeth uwchben yw corbel. Cafodd yr adeiledd Gradd II hwn ei gofrestru oherwydd ei werth ar y cyd gyda'r adeiladau a'r strwythurau eraill yn hen Weithfeydd Copr Hafod a Morfa. Mae i'w weld ar y llethr i'r gorllewin o Beiriandy Vivian ac i'r dwyrain o hen Gamlas Abertawe.

◀ WAL DERFYN GWEITHFEYDD COPR YR HAFOD

Mae'r wal uchel hon yn dyddio o adeg sefydlu'r gwaoth copr ym 1810. Mae'n 80 metr o hyd ac mae wedi cael ei adeiladu o gopr, slag, tywodfaen a briciau. Mae'n sefyll ar yr hyn a oedd yn arfer bod yn lan ddwyreiniol Camlas Abertawe, a gafodd ei hadeiladu ym 1794-8. Rhedai'r gamlas yn syth drwy'r gwaith a dyna oedd y prif ffordd o gludo glo i'r ffwrneisiau. Mae'r wal hon wedi cael ei chodi sawl tro yn ystod y 19eg ganrif. Gellir gweld dwy fynedfa fwaog o hyd a oedd yn cynnal y wal lle'r âi'r mynedfeydd i ddociau camlas drwyddi.



Chimney to the west of the Vivian Engine House

2007



The Musgrave Engine House (left) and the Vivian Engine House (right) as they look today

THE MUSGRAVE ENGINE HOUSE ►

Behind the palisade of security fencing is an engine house containing a Musgrave Uniflow Steam engine. The building and the engine date from 1910 and used rope drives to power a series of nearby rolling mills. Musgrave engines were, in their day, considered the highest expression of the steam boiler maker's art. It is a rare example of a surviving steam engine in situ and the only one of a Musgrave in Wales. It is a listed building and the Musgrave steam engine was in use as late as 1980, although has suffered serious vandal damage since.

◀ THE VIVIAN ENGINE HOUSE

Located on the west bank of the river, it is immediately adjacent to the Musgrave Engine House that superseded it. This structure was built between 1860-62 and was substantially enlarged in 1900. It housed a steam engine that powered nearby copper rolling mills. This engine house is made from dressed sandstone, snecked rubble (courses of stone broken by smaller stones) and grey bricks manufactured at the copperworks itself. It is a Grade II Listed Building.


PEIRIANDY MUSGRAVE ►

Y tu ôl i'r ffensys diogeledd mae peiriandy sy'n cynnwys peiriant ager Musgrave Uniflow. Mae'r adeilad a'r peiriant yn dyddio o 1910 ac roeddent yn defnyddio gyriannau rhaff i gyflenwi pŵer i gyfres o felinau rholio gerllaw. Yn eu dydd, ystyrid peiriannau Musgrave fel mynegiant uchaf crefft y cynhyrchydd boeleri ager. Mae'n enghraifft brin o beiriant ager sy'n goroesi ac sy'n dal yn ei le a dyma'r unig enghraifft o beiriant Musgrave yng Nghymru. Mae'n adeilad rhestredig ac roedd y peiriant ager Musgrave yn cael ei ddefnyddio mor ddiweddar â 1980, ond mae wedi dioddef yn ddifrifol o ganlyniad i ddifrod gan fandaliaid ers hynny.

◀ PEIRIANDY VIVIAN

Wedi'i leoli ar lan orllewinol yr afon, mae'n uniongyrchol yn ymyl Peiriandy Musgrave a'i disodlodd. Adeiladwyd yr adeiledd hwn ym 1860-62 ac fe'i ehangwyd yn sylweddol ym 1900. Roedd yn cynnwys peiriant ager a gyflenwai bŵer i felinau rholio copr gerllaw. Mae'r peiriandy hwn wedi'i adeiladu o dywodfaen nadd, rwbwl llanw (rhesi o gerrig wedi'u gwahanu gan gerrig llai) a brics llwyd sydd a gynhyrchwyd yn y gwaith copr ei hun. Mae'n adeilad rhestredig Gradd II.

1970



The interior of the Musgrave Engine House during the 1970's

2007



The Hafod Copperworks river quay looking south towards the city centre

THE VIVIAN LOCOMOTIVE SHED ►

This building was erected around 1910 to house the first standard gauge Garrett locomotive in Britain. The latter was used to move materials around the Hafod works site. It is a narrow single-storey building one bay deep by nine bays long. It was constructed from crushed slag and is light-grey in colour. Unfortunately this material is crumbling away. Picked out in glazed white brick on the river façade can be seen "V & S Ltd N° 1 Shed" It is a Grade II Listed Building.

◀ HAFOD COPPERWORKS, RIVER QUAY

Located on the west bank of the river it stretches from the cluster of engine houses towards the Vivian Locomotive Shed. It is composed of dressed sandstone with flat stone copings. There is a notch cut into it which allowed vessels to pull back from the rivers current and there is another before a raised stop at the southern end of the quay. This feature has been classified as a listed feature (Grade II) and it is an early industrial quay and probably dates from 1810. In its day, sailing vessels would have unloaded copper ore at it and copper goods would have left from it.

SIED LOCOMOTIFAU VIVIAN ►

Codwyd yr adeilad hwn tua 1910 i gynnwys locomotif Garrett lled safonol cyntaf Prydain. Fe'i defnyddid i gludo deunyddiau o gwmpas safle gweithfeydd yr Hafod. Adeilad un llawr cul ydyw gyda lled o un cilfach a hyd o naw cilfach. Fe'i lluniwyd o sorod wedi'i falu ac mae o liw llwyd golau. Yn anffodus mae'r deunydd hwn yn mynd yn ddarnau. Gellir gweld "V & S Ltd No 1 Shed" wedi'i ddangos mewn briciau gwyn gwydrog ar y ffasâd sy'n wynebu'r afon. Mae'n Adeilad Rhestredig Gradd II.

◀ CEI'R AFON, GWEITHFEYDD COPR YR HAFOD

Wedi'i leoli ar lan orllewinol yr afon, mae'n ymestyn o'r clwstwr o beiriandai tuag at Sied Locomotifau Vivian. Fe'i lluniwyd o dywodfaen nadd gyda chopin meini gwastad. Mae bwlch ynddo a ganiatâi i fadau dynnu'n ôl o gerrynt yr afon ac mae un arall cyn atalfa wedi'i chodi ym mhen deheuol y cei. Dosbarthwyd y nodwedd hon fel nodwedd restredig (Gradd II) ac mae'n gei diwydiannol cynnar sy'n dyddio o 1810 yn ôl pob tebyg. Yn ei ddydd byddai badau wedi dadlwytho mwyn copr yno a byddai nwyddau copr wedi cael eu cludo oddi yno.

2007



The Vivian Locomotive Shed

ACKNOWLEDGEMENTS & BIBLIOGRAPHY

ACKNOWLEDGEMENTS

I would like to thank the following people and organisations for their help and advice in the preparation of this publication; Gerald Gabb, Bernice Cardy, The West Glamorgan Archive Service, the Conservation Section of the Planning Department, the Welsh Translation Unit at Vincent Street School.

BIBLIOGRAPHY

- **Newman John**, the Buildings of Wales, Penguin.
- **Griffiths A. Ralph (ed.)**, The City of Swansea – Challenges and Changes, Alan Sutton.
- **Lavender, Stephen**, New Land for Old, Adam Hilger Ltd, Bristol.
- **Gibbs Michael and Morris Bernard**, Views of Swansea in the 1790's, Glamorgan Archives.
- **Hughes Stephen and Reynolds Paul**, The Industrial Archaeology of the Swansea Region, Association for Industrial Archaeology.
- **Jones. W.H.**, History of the Port of Swansea, West Glamorgan County Archive Service.
- **Hughes Stephen**, Copperopolis, Royal Commission on the Historic and Ancient Monuments of Wales.
- **Hilton. J.K (ed.)** The Lower Swansea Valley Project Report, Longmans.
- The Lower Swansea Valley Factsheets series, Swansea Museum.

DIOLCHIADAU

Hoffwn ddiolch i'r bobl a'r sefydliadau canlynol am eu cymorth a'u cyngor wrth baratoi'r cyhoeddiad hwn: Gerald Gabb, Bernice Cardy, Gwasanaeth Archifau Gorllewin Morgannwg, Uned Gadwraeth yr Adran Gynllunio, yr Uned Gyfieithu yn Stryd Vincent.

LLYFRYDDIAETH


- **Newman John**, Buildings of Wales, Penguin.
- **Griffiths A. Ralph (gol.)**, The City of Swansea – Challenges and Changes, Alan Sutton.
- **Lavender, Stephen**, New Land for Old, Adam Hilger Ltd, Bristol.
- **Gibbs Michael a Morris Bernard**, Views of Swansea in the 1790's, Archifau Morgannwg.
- **Hughes Stephen a Reynolds Paul**, The Industrial Archaeology of the Swansea Region, Cymdeithas Archeoleg Diwydiannol.
- **Jones. W.H.**, History of the Port of Swansea, Gwasanaeth Archifau Gorllewin Morgannwg.
- **Hughes Stephen**, Copperopolis, Y Comisiwn Brenhinol ar gyfer Henebion Cymru.
- **Hilton. J.K (gol.)** The Lower Swansea Valley Project Report, Longmans.
- Cyfres Taflenni Ffeithiau Cwm Tawe Isaf, Amgueddfa Abertawe.



*View from the bed of the
former Swansea Canal*



Swansea in 1880 was one of the great ports of the Victorian world



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

This publication was made possible because of financial support from DEIN (Department of Enterprise, Innovation and Networks).

Roedd y cyhoeddiad hwn yn bosib gyda chymorth ariannol oddi wrth DEIN (Adran Menter, Arloesedd a Rhwydweithiau).